# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17eg Hydref 2011 yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**PRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| J A Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 DATGANIADAU O FUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Cyhoeddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks ei fod wedi rhoi rhybudd ffurfiol o'i fwriad i ymddeol ar 31ain Mawrth 2012.

2.2 Gofynnodd y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau a oeddent yn dymuno cynnal cyfarfod mis Mawrth o'r Awdurdod yng Nghaernarfon er anrhydedd i PSTC Hanks a ddechreuodd ei yrfa gyda'r Gwasanaeth yng Ngwynedd.

2.3 **PENDERFYNWYD cynnal y cyfarfod o'r Awdurdod ar 19eg Mawrth 2012 yn Siambr y Cyngor yng Nghaernarfon, os bydd ar gael.**

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20fed Mehefin 2011, i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. S Frobisher a'r Cyng. A M Jones iddynt rhwng 20fed Mehefin a 7fed Hydref 2011 fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

5.2 Llongyfarchodd y Cyng. T Roberts bawb a fu'n rhan o'r Seremoni Wobrwyo a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân y Rhyl. Diolchodd y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau a fu yn y Seremoni, a mynegodd y Cyng. M Thomas siom ynghylch nifer isel yr Aelodau a oedd yn bresennol.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 LLEOLIAD Y PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon yr adroddiad a oedd yn argymell bod yr Awdurdod yn gohirio ei benderfyniad ynglŷn â lleoliad y tri Pheiriant Ysgol ac Esgynlawr sydd gan y Gwasanaeth hyd nes y daw goleuni ynglŷn â'r sefyllfa o ran criwio yn y dyfodol.

6.2 Roedd yr Awdurdod eisoes wedi cael gwybod y byddai un o'r pedwar peiriant yn cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol yn Ebrill 2012, ac mai'r hyn a gytunwyd oedd y byddid yn adolygu lleoliad y tri pheiriant arall. Fodd

bynnag, oherwydd y drafodaeth sy'n mynd ymlaen ynglŷn â lleihau'r gyllideb a'r effaith bosib ar yr opsiynau o ran yr ochr weithredol, ystyriwyd mai doeth o beth fyddai gohirio'r penderfyniad tan y cyfarfod ym mis Mawrth 2012.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, a gohirio'r penderfyniad ynglŷn â lleoliad y peiriannau ysgol ac esgynlawr tan cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2012.**

7 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2012-13

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau benderfynu ar y ffordd o gael £1 miliwn o arbedion yn ystod 2012/13 a 2013/14, ar ôl i Weithgor y Cynllun Risg werthuso'r opsiynau o ran y gyllideb ac i gyfarfod y Panel Gweithredol gael ei gynnal ar 19eg Medi 2011.

7.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân eu bod eisoes wedi penderfynu arbed £2.4 miliwn dros 3 blynedd. Yn wir, trodd Gweithgor y Cynllun Risg yn Weithgor yr Opsiynau o ran y Gyllideb, gan gynnal nifer o gyfarfodydd er mwyn ystyried yr holl opsiynau a oedd ar gael. Daeth yr opsiwn o newid y gylchrestr yn opsiwn i'w ffafrio gan fod hyn yn well na chael gwared ar beiriannau neu orsafoedd tân. Roedd trafodaethau eisoes wedi cael eu cynnal gydag Undeb yr FBU, oherwydd byddai 4% yn llai o swyddi diffoddwyr tân. Roedd gan y Gwasanaeth gysylltiadau diwydiannol da gyda'r Undeb yn lleol, ac mae'r Swyddogion yn obeithiol y bydd trafodaethau'n mynd yn eu blaenau mewn ffordd agored a thryloyw. Roedd y Prif Swyddog Tân yn pwysleisio bod y sefyllfa'n un i'w gresynu i'r ddwy ochr ond nad oedd modd osgoi hyn oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae arbedion sylweddol eisoes wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyfredol.

7.3 Roedd y Trysorydd yn adleisio sylwadau'r Prif Swyddog Tân, ac yn dweud y byddai'r arbedion hyd yn oed yn anos eu cael mewn blynyddoedd i ddod petai'r Aelodau'n methu cael yr arbedion angenrheidiol o fewn yr amserlen. Roedd yn rhaid i'r Aelodau benderfynu beth oedd yn iawn ac yn gywir i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

7.4 Siaradodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân am yr opsiynau a oedd yn yr adroddiad, ynghyd â'r risgiau a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Byddai pob opsiwn heblaw un yn golygu y byddai'r cyhoedd yn gweld gostyngiad yn y gwasanaeth yn eu hardal, felly, yn seiliedig ar yr wybodaeth honno, argymhellodd y Panel Gweithredol y dylai'r Awdurdod ystyried yr opsiwn cylchrestru a fyddai'n gweld rhwng 22 a 36 yn llai o swyddi, ond dim gostyngiad yn y gwasanaeth. Roedd Undeb yr FBU yn ymwybodol o'r gwahanol gylchrestrau a oedd yn cael eu hystyried, a chydnabuwyd y byddai'r un faint o beiriannau a gorsafoedd tân er bod newid i arferion gwaith y diffoddwyr tân.

7.5 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Gweithgor y Cynllun Risg wedi cyfarfod ar sawl achlysur, a bod y Panel Gweithredol wedi cael y diweddaraf yn rheolaidd. Dywedodd mai gyda gresyndod yr oedd dileu swyddi'n cael ei drafod, ond roedd yr Aelodau'n awyddus i gynnal y gwasanaeth i'r

cyhoedd. Dywedodd y Cyng. T Roberts fod hanes o gysylltiad da rhwng yr undebau llafur a'r swyddogion yn y Gogledd, ac roedd yn falch fod trafodaethau eisoes wedi cychwyn.

7.6 Esboniodd PSTC Simmons beth yw dileu swyddi yn wirfoddol a gorfodol, a beth yw'r sefyllfa yn genedlaethol. Oherwydd nifer isel yr ymddeoliadau ar sail afiechyd a diswyddiadau, ynghyd ag unigolion yn dewis aros ar ôl cwblhau eu 30 mlynedd o wasanaeth, roedd yn anodd rhagweld nifer yr ymddeoliadau, ac roedd yn hynny'n arwain at orfod ystyried dileu swyddi yn wirfoddol/gorfodol. Gyda'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cafwyd trafodaethau cenedlaethol er mwyn cytuno ar wella pecynnau dileu swyddi, ond nid oes cytundeb o'r fath yn bodoli mewn perthynas â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Os bydd angen dileu swyddi yn orfodol, bydd yn rhaid i'r Awdurdod ddilyn proses statudol.

7.7 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod angen diogelu sefyllfa statudol yr Awdurdod, ac unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â dileu swyddi yn orfodol, bydd yr Awdurdod ar unwaith yn dod yn rhan o'r broses statudol o drafodaethau ynglŷn â dileu swyddi.

7.8 Mynegwyd pryder gan y Cyng. W T Owen ynglŷn â gwneud penderfyniad heb wybod barn diffoddwyr tân a chynrychiolwyr yr undeb am y sefyllfa. Sicrhawyd yr Aelodau gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y gwaith o ymdrin â'r opsiynau o ran y gyllideb wedi cael ei drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gydag Undeb yr FBU a'r Prif Swyddogion. Mae'r Undebau'n cydnabod bod yn rhaid i bob ochr weithio gyda'i gilydd er mwyn cael ffordd i gyflwyno cylchrestrau a allai weithio er mantais i'r diffoddwyr tân, y Gwasanaeth a'r cyhoedd.

7.9 Roedd y Cyng. P C Evans yn bryderus y byddai llai o gyfle am ddyrchafiad o fewn Gogledd Cymru petai llai o swyddi. Dywedodd y Cyng. Evans nad oedd yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed fel rhan o broses yr opsiynau, ond teimlai mai prin oedd yr ystyriaeth a roddwyd i wneud arbedion ar ochr y staff cefnogol; teimlai hefyd fod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cael eu llethu gan strwythurau gan lywodraeth ganolog i greu swyddi diangen. Ailadroddodd y Prif Swyddog Tân y ffaith fod llawer o waith wedi ei wneud mewn perthynas â'r gwahanol opsiynau, gan gynnwys pa mor berthnasol yw swyddi staff cefnogol o fewn y sefydliad.

7.10 Roedd y Cyng. E C George yn cytuno â'r teimladau cynharach ynglŷn â chysylltiadau da gyda'r Undebau, a'r awydd i beidio ag achosi i bobl golli eu swyddi, ond trwy Weithgor y Cynllun Risg a'r Panel Gweithredol roedd argymhelliad a fyddai'n arbed arian ond yn cadw gwasanaethau. Felly, roedd y Cyng. George yn cynnig y dylid cefnogi'r argymhellion a oedd yn yr adroddiad. Eiliwyd cynigion y Cyng. George gan y Cyng. Mackie, gan ddatgan ei bod, er nad oedd ar y Panel Gweithredol na'r gweithgor, wedi siarad gydag aelodau'r pwyllgorau hynny, a'i bod yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed er mwyn cyrraedd y penderfyniad hwn a bod ganddi hyder yn y cynghorwyr oedd ar y pwyllgorau hynny.

7.11 Roedd yr Is-Gadeirydd yn cydnabod tristwch y sefyllfa, ond yn ystyried ei bod yn bwysig fod y trafodaethau oedd yn mynd rhagddynt gyda'r Undebau yn mynd yn eu blaenau gyda sensitifrwydd, a bod y broses gyfreithiol yn cael ei dilyn yn briodol.

7.12 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r gwaith manwl a wnaed gan Weithgor y Cynllun Risg;**

**(ii) nodi'r hyn y mae'r Gweithgor hwnnw yn ei ffafrio, ynghyd ag argymhellion y Panel Gweithredol sef y gellir cael yr arbedion trwy gytundeb ar y newidiadau i system gylchrestr y criwiau;**

**(iii) nodi ymhellach fod rhai risgiau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwnnw;**

**(iv) cydnabod bod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn y cyfarfod hwn o'r Awdurdod Tân ac Achub er mwyn roi digon o amser i weithredu'r newidiadau hynny;**

**(v) cefnogi yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio'n unfrydol gan y Panel Gweithredol, sef y dylid cael yr arbedion trwy gytundeb ar y newidiadau i system gylchrestr y criwiau;**

**(vi) nodi y gallai'r gofyniad i wneud yr arbedion ariannol angenrheidiol ym mlwyddyn ariannol 2012-13 arwain at yr angen i weithredu rai rhannau neu bob rhan o'r opsiynau eraill o ran y gyllideb a ystyriwyd gan Weithgor y Cynllun Risg petai'n amhosib cael cytundeb dros yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio.**

**Manylion y bleidlais: 15 o blaid, 1 yn erbyn a 5 yn atal eu pleidlais.**

8 Y CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA 2010-13

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-11 i 2012-13 cyn ei gyhoeddi ar 31ain Hydref 2011.

8.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Cyfunol drafft i Leihau Risg a Gwella 2010-13 i'w gwblhau, ei fabwysiadu a'i gyhoeddi cyn y dyddiad terfynol statudol, sef 31ain Hydref 2011.**

9 YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU

9.1 Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gweithgareddau ym maes Ymgysylltu â Chymunedau a wnaed dros haf 2011, a'u pwysigrwydd o ran rhoi cyhoeddusrwydd i ddiogelwch tân, cyfrannu at gydymffurfiad yr Awdurdod â Deddf Cydraddoldeb 2010, a siapio'r gwasanaethau y byddwn yn eu darparu yn y dyfodol.

9.2 Llongyfarchwyd y Gwasanaeth gan y Cyng. M Griffith am y gwaith a wneir, a dywedodd ei bod wedi ymweld â'r babell yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn teimlo bod y gweithgareddau'n ffordd dda o ryngweithio â phlant gan fod yn gymorth iddynt dyfu'n ddinasyddion cyfrifol. Gofynnodd y Cyng. Griffith am sicrwydd y byddai pabell debyg yn Eisteddfod yr Urdd sydd i'w chynnal yng Nglynllifon ym mis Mai 2012. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod cynlluniau yn eu lle i gael pabell yn yr Eisteddfod. Roedd y Cyng. M Davies yn adleisio sylwadau'r Cyng. Griffith, ac yn llongyfarch y

Gwasanaeth am y gwaith a wneir gydag ysgolion, ynghyd ag ymroddiad y staff i'r gwaith.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a oedd yn rhoi tystiolaeth o ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned fel rhan o strategaeth y Gwasanaeth ar atal tanau.**

10 ALLDRO AMCANOL 2011-12

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, ac roedd yn rhoi gwybodaeth am yr alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2011-2012. Roedd yr adroddiad yn dangos bod £296,027 o danwariant rhagamcanol.

10.2 Llongyfarchwyd y swyddogion gan y Cyng M Ll Davies am reoli'r gyllideb cystal. Holodd y Cyng G C Evans am natur y tanysgrifiadau, a chadarnhawyd bod y rhain i dalu aelodaeth o wahanol sefydliadau proffesiynol megis i gael gwybodaeth gyfreithiol gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig.**

11 RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDDION ARIANNOL

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd gan ei fod yn un o ofynion Cod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf fod Dangosyddion Ariannol yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Felly hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, rhaid i unrhyw newidiadau mewn benthyciadau tymor hir a newidiadau i bartïon i gontract gael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub.

11.2 **PENDERFYNWYD**
- (i) **cymeradwyo'r Dangosyddion Ariannol diwygiedig;**
- (ii) **nodi'r Partïon i Gontract;**
- (iii) **nodi'r benthyciad newydd.**

12 Y DIWEDDARAF AM Y GRŴP YMATEB I DDIGWYDDIADAU AR Y MÔR (MIRG)

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan PSTC Claydon, ac roedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau mewn perthynas â'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau gydnabod bod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn tynnu allan o'r ddarpariaeth.

12.2 Roedd yr Aelodau'n bryderus ynglŷn â thynnu allan o'r ddarpariaeth, ac roedd y Cyng. M Thomas yn teimlo y dylid ei gadw fel polisi yswiriant, yn enwedig o ystyried bod disgwyl mwy o longau mordaith yng Nghaergybi yn y dyfodol.

12.3 Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau nad oes gan yr Awdurdod ymrwymiad statudol i ymladd tanau ar y môr; roedd hefyd yn ystyried hynny'n benderfyniad gresynus tu hwnt gan y llywodraeth, ond ni allai ond

cynghori'r Awdurdod i dynnu allan o'r ddarpariaeth gan fod hynny'n amhosib heb gefnogaeth ariannol.

12.4 **PENDERFYNWYD**
- **(i) nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **(ii) cydnabod bod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth; ac o ganlyniad**
- **(iii) tynnu allan o ddarpariaeth y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr.**

13 BWRDD ARWAIN CENEDLAETHOL Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS A'R COMPACT CYDWEITHIO

13.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Clerc, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod Bwrdd Arwain Cenedlaethol y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei sefydlu, ac yn rhoi'r diweddaraf am y Compact Cydweithio.

13.2 Roedd Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, wedi cael ei sefydlu i roi arweiniad ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio, ac i gyflymu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O ran y Compact, roedd Bwrdd Arwain Gogledd Cymru wedi ei groesawu'n fras, ac roedd eisoes yn gweithio'n gadarnhaol ac yn gynyddol i gyfeiriad saith o'r deg o gamau cydweithio sydd yn y ddogfen.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi**
- **(i) sefydlu Bwrdd Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus;**
- **(ii) cynnydd y Compact cenedlaethol ar gyfer cydweithio.**

14 Y DIWEDDARAF AM YR ADOLYGIAD O FWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU MWY DIOGEL

14.1 Rhoddodd y Clerc y diweddaraf am y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel a fydd yn ei le erbyn y Flwyddyn Newydd. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am strategaeth, comisiynu, gosod blaenoriaethau, perfformiad ac atebolrwydd y gwaith cymunedau mwy diogel.

14.2 Holodd y Cyng. M Griffith ynglŷn â'r trefniadau craffu ar gyfer y Bwrdd gan ei bod yn teimlo ei bod yn bwysig eu bod mewn lle cyn i'r Bwrdd ddechrau ar ei waith. Cadarnhaodd y Clerc y byddai adroddiadau cynnydd yn cael eu darparu i'r chwe awdurdod cyfansoddol a oedd eisoes â dyletswydd i graffu ar waith partneriaethau diogelwch cymunedol, ac felly byddent yn parhau yn mewn ffordd gyffelyb.

14.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

15 LLUSERNAU PAPUR

15.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Clerc i ofyn i'r Aelodau ystyried y Rhybudd o Gynnig y cytunwyd arno yn ddiweddar yng Nghyngor Sir y Fflint ynglŷn â Llusernau Papur.

15.2 Esboniodd y Clerc fod Cyngor Sir y Fflint yn ddiweddar wedi bod yn trafod problem Llusernau Papur gan fod gan y cynghorwyr bryderon ynglŷn â'r dyfeisiau a'u bod yn eu hystyried yn berygl i anifeiliaid fferm a chefn gwlad yn gyffredinol. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'n ysgrifennu at awdurdodau cyfansoddol eraill, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er mwyn dwyn sylw at y mater hwn.

15.3 Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r Cynnig, a chytunwyd i newid y geiriad i `…. Gwahardd GWERTHU a defnyddio ….', a hefyd i newid y gair `taflegrau' i `dyfeisiau'.

15.4 **PENDERFYNWYD cefnogi'r Cynnig y cytunodd Gyngor Sir y Fflint arno, a galw ar Senedd San Steffan a/neu Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu a defnyddio dyfeisiau hedegog o'r fath.**

16 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

16.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er mwyn gofyn i'r Aelodau nodi Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2011 a oedd yn penderfynu ar ystod a lefel y lwfansau ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân. Roedd yr adroddiad a roddwyd i'r Aelodau yn nodi'r argymhellion a oedd yn effeithio ar yr Awdurdod, a'r ymateb a wnaed gan y Clerc.

16.2 Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymestyn ei gylch gwaith yn ormodol. Mynegodd y Cyng P C Evans bryder ynglŷn â'r lwfansau am gyfrifoldeb arbennig, ynghyd â'r gofyniad i ofyn i sefydliad drefnu llety dros nos; roedd yn teimlo y dylai'r Aelodau gael trefnu lle a gofyn i'r sefydliad am ad-daliad os oeddent yn gallu cael cyfradd well eu hunain.

16.3 Datganodd y Cyng. E C George fuddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Teimlai fod rhai anghysonderau yn argymhellion y Panel, e.e. y byddai Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael eu talu yr un faint ag aelod o'r Awdurdod. O ran cadeiryddion pwyllgorau, esboniodd y Cyng. George nad oedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu'r cyflog ychwanegol ar gyfer "cadeirydd pwyllgorau eraill", lle bo ATAau y De a'r Canolbarth a'r Gorllewin eisoes wedi ei fabwysiadu, a theimlai'r Cyng. George fod hynny'n rhywbeth y dylai ATA y Gogledd ei ailystyried.

16.4 **PENDERFYNWYD nodi'**
- **(i) adroddiad, a disgwyl canlyniad yr ymateb i'r ymgynghoriad;**
- **(ii) ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.**

17 COFNODION CYFARFODYDD

17.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin

- Cyfarfodydd y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 18fed Gorffennaf a 19eg Medi
- Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin

17.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II

18 PARHAD BUSNES

18.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau nodi a chefnogi Gorchmynion Polisi a Gweithdrefnau Gweinyddol y Gwasanaeth Adran 1 Rhif 3 Polisi Rheoli Parhad Busnes.

18.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod rhybudd wedi ei dderbyn gan yr undebau yn dweud eu bod mewn anghydfod llafur gyda'r Awdurdod dros newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus. Hyd yn hyn, dim ond Unsain oedd wedi cadarnhau ei fwriad i bleidleisio dros streic ar 30ain Tachwedd 2011.

18.3 Mae gan y Gwasanaeth bolisi rheoli Parhad Busnes, a hwnnw wedi ei ddatblygu'n dda, a chafodd ei lansio ar 1af Hydref 2007 yn dilyn cefnogaeth yr Awdurdod fel rhan o weithdrefnau llywodraethau cyffredinol y polisi. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau roi cefnogaeth unfrydol i'r polisi a ddosbarthwyd, a hynny er mwyn rhoi sicrwydd i'r staff pan fo angen defnyddio'r polisi.

18.4 Esboniodd PSTC Claydon fod y ddogfen gyfrinachol a ddosbarthwyd yn darparu'r ystod gyfan o opsiynau, ac yn adeiladu ar ddyletswyddau statudol yr Awdurdod i sicrhau bod y dyletswyddau hynny'n cael eu darparu ar adeg unrhyw weithredu diwydiannol. Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan PSTC Claydon am y gwahanol agweddau a oedd yn y ddogfen.

18.5 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod gofal gan y lluoedd arfog wedi bod ar gael yn y gorffennol ond nad oedd hyn bellach yn bodoli. Mae dyletswyddau statudol yr Awdurdod yn dal yn berthnasol ar adeg gweithredu diwydiannol, ond dyletswyddau 'targed' ydynt ac nid gofyniad absoliwt, fodd bynnag roedd gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau bod cynlluniau yn eu lle er mwyn rheoli ar adeg gweithredu diwydiannol.

18.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd; a**

**(ii) chefnogi cynnwys Gorchmynion Polisi a Gweithdrefnau Gweinyddol y Gwasanaeth Adran 1 Rhif 3 Polisi Rheoli Parhad Busnes fel dogfen waith y Gwasanaeth os bydd gweithredu diwydiannol.**